Cenn@d

3 Mehefin 2026

Rhifyn 275

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW

# Dathlu gyda'r Urdd ym Môn

Yn ystod wythnos hanner tymor diwedd Mai cafwyd gwledd gelfyddydol a diwylliannol wrth i Gymry o bob rhan o'r wlad ddod ynghyd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026. Mewn wythnos lle gwelwyd torri sawl record o ran y diwrnodau poethaf mewn hanes ar gyfer mis Mai, daeth degau o filoedd i gystadlu a mwynhau ar faes Sioe Môn. Roedd yna gryn newid i'r trefniadau eleni, gyda'r ŵyl yn ymestyn i saith diwrnod, gan ddechrau ddydd Sadwrn gyda'r cystadlaethau dawnsio a rhai i siaradwyr newydd.

Ar y bore Sul cafwyd oedfa yn y Pafiliwn Gwyrdd ar thema pererindod, wedi ei sgriptio'n gywrain gan Huw Tegid Roberts. Roedd hyn yn clymu â gwaith Esgobaeth Bangor a'u cynllun 'Pererin', wrth iddynt lansio llwybr pererindod newydd Cybi–Seiriol. Cawsom gyfarfod Erin Pererin yn yr oedfa, sef cymeriad a grëwyd i hyrwyddo'r llwybr. Roedd Cybi a Seiriol yn gweinidogaethu bob pen i Ynys Môn, ond yn cyfarfod â'i gilydd bob wythnos yn ymyl ffynnon gysegredig yng nghanol yr ynys. Uchafbwynt y gwasanaeth oedd y caneuon a gyflwynwyd gan gôr Ysgolion Sul Môn o dan arweiniad Catrin Toffoc. Diolch am gael ein hatgoffa o'n hanes ac o stori fyw Cristnogaeth ar yr ynys heddiw. Diolch hefyd am weld cynulliad teilwng o bobl wedi dod ynghyd i addoli o bob rhan o Fôn a thu hwnt.



*Bwrlwm yn y babell gydag amrywiaeth o weithgareddau i blant*



*Côr Ysgolion Sul Môn yn canu ym mhabell Cytûn bnawn Sul*




*Huw Tegid Roberts yn arwain y gwasanaeth yn y Pafiliwn Gwyrdd*



*Geth Tomos yn cynnal sesiwn drymio gyda chriw o blant ar y stondin*

**Man cychwyn eciwmeniaeth yw Iesu, nid cyfaddawdu**
Tudalen 3

**Adroddiad o gynhadledd Fforwm Ffydd**
Tudalen 5

**'Clywed y Stori' yn Ysgol Bro Llifon**
Tudalen 6

Yn ôl yr arfer, roedd gan Cytûn babell ar y maes, a hynny mewn cydweithrediad ag eglwysi ac ysgolion Sul y fro. Mae Aled a Delyth Davies, oedd yn gyfrifol am drefnu'r babell ar ran Cytûn, yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a gafwyd. Bu degau'n gwirfoddoli yn ystod yr wythnos, a rhannwyd miloedd o ddiodydd a Haribos i blant, heb anghofio'r *freebies*. Braf oedd cael rhannu pabell efo Esgobaeth Bangor, oedd yn hybu eu llwybr pererindod. Yn ystod yr wythnos cafwyd gweithgareddau gan Gymorth Cristnogol, Alffa Ieuenctid Cymru, yn ogystal â gweithdai drymio dyddiol o dan ofal Geth Tomos, enillydd Cân i Gymru eleni, a ddaeth â'i dlws i mewn i'r stondin gyda fe. Roedd y Cyngor Ysgolion Sul yno gyda'r arlwy arferol o lyfrau ac adnoddau, ac ar gael i sgwrsio am waith cenhadaeth yn lleol. Croesawyd miloedd o blant a phobl i mewn i'r stondin, yn eu plith, ein Prif Weinidog newydd, Rhun ap Iorwerth, ac Archesgob Cymru, Cherry Vann.

Diolch arbennig i eglwysi Môn am eu cefnogaeth ac i'r rhai a dreuliodd amser ar y stondin yn cynnal gweithgareddau a rhannu diodydd. Roedd yn braf gweld y bwrlwm a'r cydweithio, a phawb yn mwynhau'r arlwy. Ymhen y flwyddyn, Casnewydd fydd yn gwahodd, ac edrychwn ymlaen at symud o Fôn i Fynwy ar gyfer 2027.





*Rhai o'r gwirfoddolwyr fu'n cynorthwyo yn y babell*

Yr un penwythnos cynhaliwyd gŵyl Gristnogol ar faes y sioe yng Nghaerfyrddin, lle daeth dros 1,500 ynghyd ar gyfer diwrnod teulol. Diolch i Beti-Wyn James am gamu i mewn i gynrychioli'r Cyngor Ysgolion Sul yno gyda stondin lyfrau.



*Y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth, yn ymweld â phabell Cytûn gyda Nia Elain Roberts ac Aled Davies*



*Aled a Delyth gyda Kathryn Stowers, darpar Gadeirydd Cytûn a Jennie Hurd, Cadeirydd presennol Cytûn*



## CYNHADLEDD CENADAETHAU GWLEDIG

### CODI HYDER FEIBLAIDD MEWN CRISTNOGION GWLEDIG

**Dydd Mawrth Mehefin 30 2026**
**10yb tan 4yp**
**Am ddim – Cinio a lluniaeth ysgafn**
**Canolfan Pererin Mary Jones, Bala, LL23 7YF**

Dros 200 mlynedd yn ôl, cerddodd merch ifanc o Gymru dros y mynyddoedd oherwydd ei bod hi'n dyheu am fod yn berchen ar gopi o'r Beibl yn iaith ei chalon.
Heddiw mae nifer o eglwysi gwledig dal i garu'r Beibl, ond efallai nad oes ganddynt hyder i'w rannu â'u cymunedau.
Mae'r cyfarfod hwn yng Nghanolfan Pererin Mary Jones yn dod ag arweinwyr eglwysig, gwirfoddolwyr ac arloeswyr cenhadol ynghyd i ailddarganfod hyder yn yr Ysgrythur ac archwilio sut y gall y Beibl lunio cenhadaeth yng nghefn gwlad Cymru.

CENHADAETH WLEDIG

ARCHEBWCH NAWR

www.ruralmissions.org.uk/cymru

CYMDEITHAS Y BEIBL



## CRISTNOGAETH 21

**Trafodaeth ar Zoom**
**Mehefin 29, 18.30 – 19.30**

- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

**Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs**

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom

# Man cychwyn eciwmeniaeth yw Iesu, nid cyfaddawdu

## gan Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn

*Nid rhywbeth rhyddfrydol sy'n tynnu sylw oddi wrth yr efengyl yw undod. Gorchymyn wedi'i lunio gan yr efengyl ydyw.*

I lawer o efengylwyr (sef y traddodiad y cefais fy magu ynddo a'r traddodiad y mae fy eglwys yn perthyn iddi), mae'r gair 'eciwmeniaeth' yn codi pryder. Edrychir arno'n amheus. Golyga bwyllgorau di-ri, athrawiaeth wan, datganiadau wedi'u geirio'n ofalus, a'r math o ewyllys da crefyddol amwys sy'n osgoi dweud unrhyw beth yn bendant. I Gristnogion sy'n poeni'n ddwfn am yr Ysgrythur, tröedigaeth yr unigolyn a chenhadaeth, mae'r ofn yn ddealladwy: ai cyfaddawd yw eciwmeniaeth?

Ond beth os ydym wedi dechrau yn y lle anghywir?

Nid yw eciwmeniaeth, ar ei gorau, yn dechrau gydag enwadau, cynghorau, uno sefydliadau, na dogfennau polisi. Mae'n dechrau gydag Iesu. Yn fwy penodol, mae'n dechrau gydag Iesu'n gweddïo. Yn Ioan 17, ar noswyl ei groeshoeliad, mae Iesu'n gweddïo dros y rhai fydd yn credu ynddo: 'fel y byddont oll yn un'. Nid rhywbeth ychwanegol, dewisol i Gristnogion anarferol o ddiplomataidd yw'r weddi honno. Nid prosiect ymylol ydyw i'r rhai sydd ag amser sbâr a blas at berthynas rhwng eglwysi. Mae'n rhan o galon Crist dros ei bobl.

Mae hynny'n golygu nad strategaeth yw undod Cristnogol yn y lle cyntaf. Ufudd-dod ydyw.

Mae hyn yn bwysig, yn arbennig i efengylwyr, oherwydd mae ein greddf yn dweud wrthym am ddechrau gyda'r Ysgrythur. Os ydym am gyflwyno achos dros undod, ni ddylem ddechrau gyda phwysau diwylliannol, pryder sefydliadol, nac embaras ynghylch rhaniadau enwadol. Dylem ddechrau lle mae disgyblion yn dechrau: drwy wrando ar Iesu. Ac nid awgrymu undod yn unig y mae Iesu. Mae'n gweddïo drosto.

Yn fwy trawiadol fyth, mae Iesu'n cysylltu undod ei ddilynwyr â hygrededd eu tystiolaeth. Mae'n gweddïo y bydd ei bobl yn un 'er mwyn i'r byd gredu'. Mewn geiriau eraill, nid testun defosiynol yn unig yw Ioan 17. Testun cenhadol ydyw. Mae bywyd gweladwy'r eglwys yn dweud rhywbeth am wirionedd yr efengyl. Pan fydd Cristnogion yn cael eu cymodi, mae'r byd yn gweld arwydd o allu cymodlon Duw. Pan fydd Cristnogion yn elyniaethus, yn amheus o'i gilydd ac yn gystadleuol, mae'r byd yn gweld rhywbeth arall.

Dyma pam na ellir diystyru undod fel pryder 'rhyddfrydol', fel petai efengylu ac undod yn ddau beth sy'n cystadlu â'i gilydd. Nid yw Iesu'n eu gwahanu. Mae'n eu rhwymo ynghyd. Mae undod yr eglwys yn rhan o dystiolaeth yr eglwys i Grist.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu bod pob ffurf ar undod yn ffyddlon. Mae'r un apostolion ag sy'n galw credinwyr i fod 'o'r un meddwl' hefyd yn rhybuddio rhag gau athrawiaeth. Mae'r un Paul sy'n erfyn ar y Corinthiaid i beidio â chael rhaniadau yn eu plith hefyd yn mynnu na ddylid ystumio'r efengyl. Nid crefydd ar sail 'y lluosrif cyffredin lleiaf' (lowest common denominator) yw undod Beiblaidd. Nid yw'n esgus nad yw cwestiynau anodd yn bwysig. Nid yw'n gyfeillgarwch ysbrydol amwys sy'n trin athrawiaeth fel rhywbeth anghyfleus.



Ond nid yw ffyddlondeb Beiblaidd ychwaith yn mynnu fod gwahanu yn rhyw adwaith awtomatig.

Mae rhai Cristnogion fel pe baent yn dychmygu po fwyaf rhanedig yr ydym, y mwyaf difrifol yr ydym ynghylch athrawiaeth. Ond nid yw rhaniad yn arwydd awtomatig o ddewrder nac uniongrededd athrawiaethol. Weithiau, mae'n arwydd o anaeddfedrwydd. Weithiau, mae'n ffrwyth balchder, ofn neu ddiogi ysbrydol. Mae'n haws rhybuddio pobl am 'y Cristnogion draw fan acw' nag eistedd gyda nhw, gweddïo gyda nhw, gwrando'n ofalus, agor yr Ysgrythur gyda'n gilydd, a gofyn beth mae ffyddlondeb yn ei olygu.

Dylai'r Groes ein gwneud yn ofalus ynghylch dirmyg. Ar y Groes mae Crist yn cymodi pechaduriaid â Duw ac, wrth wneud hynny, yn creu pobl gymodlon. Nid cymdeithas wirfoddol o 'ddefnyddwyr' crefyddol sy'n digwydd ffafrio dulliau addoli tebyg yw'r eglwys. Corff Crist ydyw. Pobl wedi'u casglu gan ras ydyw. Teulu wedi'i ffurfio gan waed ydyw – nid ein gwaed ni, ond gwaed Crist: y gwaed a redodd ar y Groes.

Nid yw hynny'n dileu gwahaniaethau gwirioneddol rhwng eglwysi. Ond mae'n eu gosod mewn goleuni gwahanol.

Os yw Crist wedi derbyn rhywun, dylem fod yn araf i'w ddirmygu. Os yw'r Ysbryd ar waith mewn cymuned, dylem fod yn araf i'w diystyru. Os yw eglwys arall yn cyffesu Iesu yn Arglwydd, yn cyhoeddi'r Ysgrythurau, yn bedyddio yn enw'r Drindod, ac yn ceisio dilyn Crist, yna hyd yn oed lle mae anghytuno ar faterion pwysig, ni allwn ei thrin fel brand cystadleuol. Mae'n ymwneud ag aelodau o gorff Crist.

Dyma lle mae eciwmeniaeth yn dod yn rhywbeth 'efengylaidd'. Mae'n gofyn inni gymryd yr efengyl mor ddifrifol nes credu nad rhywbeth yr ydym yn ei bregethu i unigolion yn unig yw cymod. Mae'n rhywbeth y mae Duw yn bwriadu ei arddangos ym mywyd ei bobl. Nid achub eneidiau unigol yn unig y mae'r efengyl; mae'n creu dynoliaeth newydd. Mae gelyniaeth yn cael ei chwalu. Mae dieithriaid yn dod yn deulu. Mae cyn-elynion yn rhannu bwrdd. Mae Iddewon a'r Cenhedloedd, y caeth a'r rhydd, dynion a menywod, y tlawd a'r cyfoethog, yn cael eu gwneud yn un yng Nghrist.

Os yw hynny'n wir, yna nid problem fach PR yw rhaniad gweladwy ymhlith Cristnogion. Clwyf yn ein tystiolaeth ydyw.

Mae llawer o bobl y tu allan i'r Eglwys eisoes yn tybio fod dyddiau'r Eglwys ar ben, neu mai rhywbeth yn gysylltiedig â phŵer, grym a'r 'sefydliad' ydyw. Pan welant eglwysi'n cystadlu am aelodau, yn gwawdio'i gilydd, yn dyblygu gweinidogaethau a hynny mewn ysbryd cystadleuol, mae eu hamheuaeth yn dyfnhau. Gallant ofyn yn rhesymol: os yw'r efengyl yn cymodi pobl â Duw ac â'u cymydog, pam mae'r Eglwys yn ymddangos mor anghymodlon â'i gilydd?

Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i bob enwad uno ar unwaith. Efallai mai arbrawf amhosibl yw hynny, ac na ddylem ymroi o gwbl i ddilyn y llwybr hwnnw. Nid yw'n golygu y gellir datrys pob anghytundeb athrawiaethol drwy ewyllys da. Nid yw'n golygu bod undod gweladwy yn syml. Ond mae'n golygu y dylai rhaniadau ein tristáu yn fwy nag y mae'n aml yn ei wneud. Ni ddylem fod yn gyfforddus â chorff Crist wedi'i hollti.

Mae eciwmeniaeth ffyddlon yn dechrau ag edifeirwch. Edifarhawn nid am ofalu am wirionedd, ond am ddefnyddio gwirionedd fel arf heb gariad. Edifarhawn, nid am fod â chollfarnau, ond am gymysgu ein henwad / llwyth / traddodiad ni yn unig â theyrnas Dduw. Edifarhawn, nid am berthyn i draddodiadau penodol, ond am ymddwyn fel petai ein traddodiad ni'n dihysbyddu doethineb a gras Duw.

Yna, dechreuwn eto gyda gweddi Iesu.

Sut olwg allai fod ar hynny yn ymarferol? Gallai olygu gweinidogion o wahanol eglwysi'n gweddïo gyda'i gilydd cyn cynllunio gyda'i gilydd. Gallai olygu cynulleidfaoedd yn rhannu mewn cenhadaeth leol heb esgus bod eu holl wahaniaethau wedi diflannu. Gallai olygu bod efengýls fel fi'n darllen Ioan 17 nid fel delfryd haniaethol ond fel gorchymyn sy'n profi ein disgyblaeth. Gallai olygu siarad am Gristnogion eraill â'r gofal y byddem yn gobeithio y byddent hwy'n ei ddangos tuag atom ni. Gallai olygu gofyn, cyn beirniadu, a ydym wedi deall.

Yn anad dim, mae'n golygu adfer y syniad nad yw undod yn fygythiad i ffyddlondeb. Wedi'i ddeall yn iawn, ffyddlondeb yw undod – ffyddlondeb i'r Crist a weddïodd drosto, a'i prynodd, ac sy'n ein galw i'w fyw.

# Cyfarfodydd Cymdeithasfa'r De ym Mhort Talbot

Yng Nghapel Grove Place, Aberafan, Port Talbot, y cynhaliwyd cyfarfodydd Cymdeithasfa'r Gwanwyn eleni, a hynny ddydd Iau, 23 Ebrill. Estynnwyd croeso i'r cynrychiolwyr oedd yn bresennol yn y capel, yn ogystal â'r rhai oedd wedi ymuno'n rhithiol, gan y Parch. Carwyn Arthur, Llywydd Sasiwn y De. Wedi iddo gyflwyno'r defosiwn, aed ati i dderbyn adroddiadau, trafod rhai materion busnes a rhannu newyddion da o'r henaduriaethau.

Derbyniwyd cyfarchion o Sasiynau'r Gogledd a'r Dwyrain, yn ogystal â chan Miss Glynis Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ac adroddiad y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol.

Eglurodd Hedd Morgan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweinidogaethau EBC, y byddai'r ymatebion i'r ddogfen ar ailstrwythuro'r Eglwys yn cael eu hystyried gan weithgor yn cynnwys ymddiriedolwyr yr Eglwys, a fyddai yna'n cyflwyno argymhellion i Fwrdd y Gymanfa.

Arweiniwyd y defosiwn yng nghyfarfod y prynhawn gan rai o aelodau Henaduriaeth Morgannwg Llundain.

Cyflwynwyd enwau'r rhai oedd i'w llongyfarch ar sail eu gwasanaeth i Eglwys Bresbyteraidd Cymru gan y Parch. Emyr Williams, Ysgrifennydd Sasiwn y De. Dyma'r rhai a enwyd:

**Henaduriaeth Morgannwg Llundain**

Mr T. Howard Williams, Trinity, Abertawe – 40 mlynedd
Mr Graham Griffiths, Ealing Green, Llundain – 40 mlynedd
Dr Hywel Thomas, Clapham Junction, Llundain – 50 mlynedd
Mr Rheinallt Thomas, Salem, Treganna, Caerdydd – 60 mlynedd

**Henaduriaeth Myrddin**

Mrs Annabelle Thomas, Gosen, Gorwydd – 60 mlynedd
Mr Towyn Morgan, Tabernacl, Llanymddyfri – 50 mlynedd
Mrs Lilibet Jones, Capel Hendre – 40 mlynedd
Mr Dafydd Evans, Bro Dewi Fawr – 50 mlynedd

Llongyfarchwyd y blaenoriaid newydd oedd wedi'u hordeinio'n ddiweddar, a chafwyd gair o goffâd am y gweinidogion a blaenoriaid a hunodd ers cyfarfod diwethaf y Gymdeithasfa. Estynnwyd cydymdeimlad â'r teuluoedd galarus, a gweddïwyd drostynt gan y Parch. Dafydd Andrew Jones.

Y Br Thomas Ellis Williams, Eglwys y Crwys, Caerdydd, fu'n annerch cyn y Cymun, a seiliodd ei sylwadau ar hanes Paul a Silas yn y carchar (Actau 16). Yna, gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. Carwyn Arthur. Wrth i'w dymor fel llywydd ddirwyn i ben, cyflwynwyd enw darpar lywydd Cymdeithasfa'r De, sef y Fns Bronwen Morgan, Bwlch-llan, a dymunwyd yn dda iddi yn y gwaith.

I derfynu, cafwyd cyflwyniad bywiog gan Mrs Margaret Jones am y gwaith estyn allan sy'n digwydd ym Mhort Talbot, ac yn arbennig y gwasanaeth y mae'r banc bwyd lleol yn ei gynnig.

Diolchwyd i bawb fu ynghlwm â'r gwaith o drefnu cyfarfodydd y Sasiwn yn ogystal â'r lluniaeth ar gyfer y cynrychiolwyr.



# ‘Cenedlaetholdeb – cleddyf daufiniog’: cynhadledd Fforwm Ffydd

## gan Pryderi Llwyd Jones

Gwych oedd i ‘Undeb Athrofa’r Bala’ esblygu i fod yn ‘Fforwm Ffydd’. Erbyn hyn mae parodrwydd i deithio’n gynnar i Landudno er mwyn cael y ddau sesiwn yn y bore. Mae’n ddiddorol mai aelodau ein heglwysi yn hytrach na gweinidogion oedd y mwyafrif yno i drafod ein ffydd a’n cred.

Roedd yr arweiniad yn oleuedig ac yn ddifyr, yn enwedig o gofio ein bod yn cyfarfod dridiau cyn etholiad Senedd Cymru. ‘Cenedlaetholdeb – cleddyf daufiniog’ oedd y thema, sef maes doethuriaeth a chyfrol y Parchedig Rhys Llwyd, Caernarfon, sef cenedlaetholdeb yng ngwaith Dr R. Tudur Jones. Ond fe gyfoethogodd profiad Rhys ei hun ei gyflwyniad i bwnc sydd mor gyfoes. Does dim ond angen enwi Israel, Rwsia ac America Trump i brofi hynny. Mae sylwadau Rhys i’w gweld erbyn hyn ar sianel YouTube https://www.youtube.com/watch?v=zXeUjCugsVga a gwefan yr eglwys Bresbyteraidd www.ebcpcw.cymru.



*Christopher Prew, Rhys Llwyd, Megan Williams ac Eric Jones*

### Teulu

Yn ei sgwrs gyntaf soniodd Rhys am genedaetholdeb Anghydffurfiol Gymreig a’r ffordd y daeth hynny’n ffordd o fyw naturiol iddo. Magwyd ef mewn eglwys efengylaidd yn Aberystwyth. Roedd ei dad-cu, Gareth Davies, yn weinidog efengylaidd yn Rhydaman ar ôl bod yn löwr fel ei dad ac fel ei dad yntau. Pan oedd yn blentyn, bu Rhys yn rhannu pamffledi Plaid Cymru gyda’i dad mewn cyfnod etholiad. Fel myfyriwr, cyfarfu â Christnogion efengylaidd nad oedd yn Gymry, ac oherwydd ei fod erbyn hynny’n ymgyrchu gyda Chymdeithas yr Iaith fe’i heriwyd gan rai Cristnogion: ‘Rhaid dewis – cenedlaetholdeb neu Grist?’ Ond drwy waith Dr Tudur daeth Rhys i sylweddoli bod dilyn Iesu yn golygu dod i ddarganfod ei hun hefyd, a daeth yr hyn oedd yn naturiol iddo ef yn rhan bwysig o ‘fy stori i’.

Ideoleg yw cenedlaetholdeb ac fe all fod yn ideoleg ‘wag’ ac yn llawn peryglon os yw’n ddiben ynddo’i hun. Ond pa fath o genedlaetholdeb? Fe all cenedlaetholdeb etifeddol Rhys (a nifer fawr ohonom) fod yn hawdd a thawel (‘ciwt’ oedd ei air – ‘sentiment’ yn well, efallai?) ac yn ddall i dyndra ac amgylchiadau cymhleth ein cyfnod. Ystyrier, er enghraifft, YesCymru a’i amrywiaeth; peryglon amgylchiadau economaidd, y slogan slic a’r poblogeiddio (populism). Ceir ffeithiau amgen sydd, er nad yn wir, yn ein denu; ystyron camarweiniol geiriau sy’n twyllo, ac, yn fwy na dim, ddiflaniad Cristnogaeth fel ffordd o fyw. Mewn cyfnod pan mae newidiadau diwylliannol yn digwydd yn rhy gyflym, rhaid bod yn effro i beryglon y gwenwyn all fod yn ein cenedlaetholdeb.

Mae hyn i gyd, meddai Rhys, yn golygu bod ‘fy stori i’ hefyd yn ‘ein stori ni’ a bod ein cenedlaetholdeb Anghydffurfiol – a dylanwad rhai fel Tudur a Gwynfor a Waldo – yn cynnwys y gwerthoedd a’r cenedlaetholdeb hwnnw yr hoffem i eraill ei gael a’i ddathlu. A’r cenedlaetholdeb hwnnw y gallwn ei arddel wrth dystio i’n ffydd yn bersonol ac yn gyhoeddus – boed etholiad ai peidio!

### Gwreiddiau

Wrth sôn am *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (teitl dwy o gyfrolau Dr Tudur), cyfeiriodd Rhys eto at brofiad teuluol. Soniodd am ei ymweliad â Threfeca i gynnal sesiwn hyfforddi ar sut i ddefnyddio Facebook. Cofiodd fod ei dad-cu (y Parchedig Gareth Davies, gweinidog efengylaidd yn Rhydaman) wedi bod yno i baratoi ar gyfer y weinidogaeth ac mai yn Nhrefeca y cafodd Gareth Davies dröedigaeth bersonol.

Ar ôl y cwrs, roedd Rhys yn teithio i Gaerfyrddin a phenderfynodd deithio drwy Ddyffryn Aman a chynefin ei deulu. Ni allai beidio â meddwl nad oedd dim wedi llenwi’r ‘gwacter ystyr’ sydd wedi ei adael oherwydd i Gymru golli stori fawr ei ffydd a’n hanes. Yn ogystal ag olion yr hen ddiwydiannau a welodd ar ei daith roedd ambell Gospel Hall, digon o weddillion hen addoldai ac un capel newydd ei ddymchwel, capel oedd yng ngofalaeth gyntaf ei dad-cu. Gwelodd hefyd un placard Plaid Cymru!

Nid yw hiraeth a nostalgia’n ddigon mewn ymateb i hyn, oherwydd mewn mannau fel hyn mae profi ein gwir argyfwng a’r angen i chwilio am atebion. Argyfwng gobaith ydyw, ac mae’r gobaith hwnnw yng nghalon ei phobl pan fyddant yn dod i wybod mai’r trysor mwyaf sydd gennym yw Iesu ei hun. Mae’r gobaith hwnnw yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn genedlaethol.


Pegynu yw un o fygythiadau mwyaf ein cymdeithas a’n byd. Mae pegynu gwleidyddol sy’n gwisgo’r crefyddol a’r Cristnogol ac yn ei wneud yn hiliol. Mae pegynu rhyngwladol sy’n wrthdaro diwylliannol a chrefyddol, er enghraifft Franklin Graham yn cydnabod Trump yn sant. Gellir ei weld hefyd yn y pegynu diwylliannol sy’n caniatáu i Tony Robinson drefnu gwasanaeth Nadolig sy’n ‘wir Brydeinig’. Ac mae’n llenwi’r cyfryngau cymdeithasol lle mae slogan a rheg yn meithrin rhagfarnau a bygythiadau.

Daeth y gynhadledd i ben gyda Rhys yn gofyn: a ydym yn caru Cymru yn ddigon er gwaethaf ei methiannau? A ydym yn ei charu oherwydd bod y Crist yn ein calon yn ein harwain i roi egwyddorion ei Deyrnas yng nghanol ein gwleidyddiaeth a bywyd ein cenedl?

Bu llawer o sylwadau a thrafod ar ôl y ddau sesiwn, ac nid yw hynny’n syndod. Diolchodd y Llywydd, Eric Jones, i Christopher Prew am ei arweiniad ar y dechrau a diolchodd i Rhys Llwyd am arweiniad cyfoethog a chofiadwy iawn. Anfonwyd cofion at John Owen, ein Cyn-lywydd, a fethodd fod yn bresennol oherwydd cyfyngiadau iechyd. Diolchodd Rhys Bebb Jones i’n Llywydd am ei lywyddiaeth raenus. Bu cyfraniad Eric yn arwain ers deng mlynedd yn batrwn o ddoethineb a pharatoi manwl.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 25

## Ymson yr hudoles

Bydd rhai'n f'ystyried yn ddim ond llais yn ymbil yn y tywyllwch, neu enaid gwan yn mynnu sylw. Bydd eraill yn fy meirniadu'n hallt. 'Gwraig wirion Potiffar ydy hi' – dyna a ddywedant. Ers ei briodi, dydw i ddim wedi byw fel person yn fy nghroen fy hun. Welodd neb fy unigedd. Dyw muriau cartref cyfoethog ddim bob amser yn cael eu naddu o aur coeth; weithiau, mae'r waliau'n ysgythrog ac yn oer.

Daeth Joseff atom fel caethwas, ond heb ymarweddu felly. Byddai'r gweision eraill yn crymu'n benisel dan bwysau gwaith, ond nid felly Joseff. Cerddai â sicrwydd yn ei gamau. Roedd ei lefaru hefyd yn ofalus: pob gair yn ei le, ei frawddegau wedi'u plethu'n gelfydd a'i feddwl yn chwim a doeth. Cafodd sylw gan fy ngŵr – y math o sylw sy'n dyrchafu gwas i safle uwch nag y dylai ei gael. Yn fuan wedi iddo gyrraedd, cafodd gyfrifoldeb i ofalu am y cwbl: y gweision i gyd, y grawn a'r gwinllannoedd. Byddai fy ngŵr yn ei ganmol o flaen pawb, ag edmygedd yn ei lais. Roedd Joseff yn gwneud bywyd yn haws inni, oedd; ond eto, golygai hyn fod dieithrio rhyngof fi a fy ngŵr. Aeth Potiffar yn ddyfnach i mewn i'w bethau ei hun a'i ymwneud â phawb arall, ac eithrio fi.

Allwch chi ddychmygu sut beth yw cael eich anwybyddu yn eich cartref eich hun? Sut beth yw diflannu'n araf bach, heb neb yn malio?

Dechreuodd fy mlys am Joseff yn araf. Fel yr oedd sylw fy ngŵr tuag ataf yn lleihau, tyfu wnaeth fy nyheadau cyfrinachol. Gwelais Joseff yn ymddwyn yn barchus a charedig at bawb. Fedrwn i ddim deall pam yr oedd hynny'n fy nghyffroi ac yn fy nghynddeiriogi! Roedd e'n ddisgybledig ym mhopeth yr oedd yn ei wneud. Doedd o ddim yn chwarae gemau â neb; yn wir, roedd popeth amdano'n ymddangos yn ddiffuant.

Ceisiais berswadio fy hun mai ei edmygu o bell oedd orau. Ond roedd tueddiad ynof i geisio sicrhau ei fod yn agos ataf. Byddwn yn ei holi am bethau'r tŷ, yn creu problemau i gael eu datrys, yn esgus bod angen rhywbeth arna i. Cawn atebion cwrtais ganddo bob tro, ond roedd yn cadw hyd braich. Do'n i ddim wedi arfer â hynny. Byddai gweision, fel arfer, yn ceisio fy mhlesio. Roedd pobl gyffredin yn ymgrymu wrth fy ngweld ac yn crynu mewn ofn os byddwn i'n anhapus. Gwyddwn, yma yn yr Aifft, fod modd prynu popeth: ffyddlondeb, tawedowgrwydd, emosiwn. Neu dyna a feddyliwn.

Penderfynais fy mod am geisio'i ddenu. Fe driais, fwy nag unwaith; dim llwyddiant. Cododd rhyw gynddaredd rhyfedd y tu mewn imi. Teimlais ei fod yn fy nhrin fel gelyn, a bod yn rhaid iddo fy ngwrthsefyll. Methais yn f'ymdrechion i'w feddiannu; oherwydd hynny, methais ymdopi â cholli'r gêm.

A beth am fy ngŵr? Byddai bob amser yn ffafrio delio â phethau fel hyn yn gyflym, yn hytrach na mynd ati i ddarganfod y gwir. Felly, cwynais am Joseff, a'i gyhuddo. D'wedais mai ef oedd wedi dod ataf fi, fy mod i wedi gweiddi, a'i fod ef wedi dianc gan adael ei ddillad ar ôl. Fe oedd yr un euog, a minnau'r unig dyst.

Carcharwyd Joseff. Dychwelais innau i'r distawrwydd a fu. Meddyliais droeon: tybed oedd Joseff yn tosturio drosof? Ys gwn i a welodd ef mai cartref gwag oedd un fy ngŵr a minnau, heb gyfoeth na bywyd ynddo? Roedd Joseff yn meddu ar rywbeth na allem ni fyth ei gyffwrdd.

Cofiwch nad yw casineb bob amser yn datblygu mewn eiliad; weithiau bydd yn tyfu'n araf, am iddo wreiddio yn ystafell y galon oer. Dim ond gras all ddad-wneud hynny.

**Holi**

- Sut ydych chi'n ymateb i wraig Potiffar? Ydych chi'n edrych arni â llygaid beirniadol neu rai tosturiol?
- Cafodd Joseff ei brofi yn y dirgel a'i gyhuddo ar gam. Pa sefyllfaoedd heddiw sy'n dangos camddefnyddio grym dinistriol?
- Pa wersi ymarferol sydd yma am osod ffiniau personol, osgoi temtasiwn, a gofalu am iechyd meddwl ac ysbrydol (ni ein hunain ac eraill)?
- Yn yr ymson, dywed gwraig Potiffar fod Joseff yn 'meddu ar rywbeth na allem ni fyth ei gyffwrdd'. Ydy Joseff yn berchen ar y rhinweddau sydd yn cael eu nodi yn Philipiaid 4:8?

**Gweddi**

Os ydym yn teimlo'n ansicr neu'n simsanu, cymer ni i'th ofal.
Os oes ofn arnom am ba reswm bynnag, cysura ni.
Os ydym wedi ein siomi, neu wedi siomi eraill, rhyddha ni o'r gofid hwnnw.
Maddau inni am bob bai a chamgymeriad.
Derbyn ni, a gwna ni'n dystion gwir i'th gariad. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 7 Mehefin 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Angela Williams, Llanfair-pwll

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Mehefin am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Gwilym Jeffs, Caerdydd

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Mehefin, am 7:00yh – Uchafbwyntiau**
Bydd Rhodri Gomer yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres

# ‘Clywed y Stori’ yn Ysgol Bro Llifon

## gan Llinos Morris, Cydlynydd Cynllun Eg-sgol Henaduriaeth Arfon




Fel rhan o waith Eg-sgol yn Ysgol Gynradd Bro Llifon, datblygais gynllun newydd o’r enw Clywed y Stori. Er bod nifer o adnoddau a chynlluniau creadigol gwych ar gael i rannu straeon y Beibl gyda phlant, roeddwn yn awyddus i greu rhywbeth ychydig yn wahanol, rhywbeth oedd yn dechrau gyda’r plant eu hunain. Nod y cynllun yw rhoi cyfle iddynt archwilio’r Beibl, gofyn cwestiynau, trafod, gwneud dewisiadau a chymryd perchnogaeth o’r ffordd y caiff y stori ei rhannu ag eraill.

Mae’r syniad hefyd yn cyd-fynd yn naturiol â phwyslais y Cwricwlwm i Gymru ar lais y dysgwr a’r maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan annog chwilfrydedd, myfyrdod, creadigrwydd a thrafodaeth am y negeseuon a’r gwerthoedd sydd wrth galon y straeon.

I ddechrau’r cynllun, dewiswyd tri disgybl i gymryd rhan yn y sesiynau cyntaf, a daethom ynghyd i drafod y Beibl ei hun. Trafodwyd beth yw’r Beibl, y gwahaniaeth rhwng yr Hen Destament a’r Testament Newydd, a sut mae’r straeon yn rhan bwysig o hanes a’r ffydd Gristnogol. Yna, cafodd y plant gyfle i archwilio’r Beibl drostynt eu hunain, gan droi’r tudalennau, darllen teitlau, trafod cymeriadau a rhannu’r hyn oedd yn dal eu sylw.

Wrth archwilio’r Beibl gyda’i gilydd, dywedodd un o’r plant yn frwdfrydig: “Waw, mae ’na lwyth o storis yn y Beibl ’ma!” Roedd y sylw syml hwnnw’n crynhoi rhywbeth pwysig iawn. Yn aml, mae plant wedi clywed straeon y Beibl gan eraill, ond prin yw’r cyfleoedd iddynt agor y Beibl eu hunain a darganfod ei gyfoeth drostynt eu hunain.

Ar ôl trafod sawl stori, dewis y plant oedd Dameg y Ddau Dŷ. Treuliwyd amser yn darllen yr adnodau gyda’n gilydd ac yn trafod eu hystyr a’u neges. Y plant wedyn a benderfynodd sut i rannu’r stori gyda gweddill yr ysgol. Yn yr achos hwn, dewison nhw ysgrifennu sgript fer a dramateiddio’r hanes mewn gwasanaeth ysgol.

Cyflwynodd y plant y stori yn hyderus iawn, gan hefyd baratoi neges fer am yr hyn yr oeddent wedi ei ddysgu o’r ddameg ac yr hoffent ei rannu gyda’r ysgol, cyn cloi gyda gweddi. Roedd eu creadigrwydd yn amlwg wrth iddynt ddod â phrops gyda nhw – rhaw, morthwylion a sgarffiau pen! Cafwyd llawer o hwyl wrth baratoi a chyflwyno’r gwasanaeth, a chafodd y stori groeso arbennig gan y disgyblion a’r staff.

Mae wedi bod yn hyfryd gweld plant yn agor y Beibl, yn rhyfeddu at y straeon sydd ynddo, ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o’u rhannu ag eraill. Mewn ffordd dawel a naturiol, mae’r cynllun hefyd yn adleisio traddodiad llafar cyfoethog Cymru, lle’r oedd ffydd a straeon yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth drwy wrando, dweud ac ailadrodd. Gobeithiwn mai dim ond dechrau’r daith yw hyn i gynllun Clywed y Stori yn Ysgol Bro Llifon. Tybed pa stori fyddwn yn ei chlywed nesaf?

## Y Cwrs Alffa gan Nicky Gumbel yn Gymraeg

Datblygwyd y cwrs *Alpha* gan Nicky Gumbel fel cyfrwng i archwilio’r ffydd Gristnogol, ac fe’i cyfieithwyd i’r Gymraeg gan Gyhoeddiadau’r Gair.

Mae llyfrynnau *Alffa* ar gael i’w defnyddio gyda’r ffilmiau Saesneg sy’n cael eu cyflwyno gan Nicky ei hun, neu mae modd cyflwyno’r sgyrsiau ar lafar gan ddefnyddio’r llyfr *Beth yw Bywyd*. Erbyn hyn mae cefnogaeth i Alffa ar gael yng Nghymru trwy waith Nathan Sadler, sydd ar gael i gefnogi gwaith cenhadol ymhlith eglwysi Cymru.

Bu Nathan yn rhan o waith pabell Cytûn yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar.

Cewch fwy o wybodaeth o’r wefan: https://alpha.org.uk/wales



# Gair wrth ffarwelio ...

**gan y Parch. Judith Morris,**
**Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol**
**Undeb Bedyddwyr Cymru**



Yn ystod mis Medi 2014 cefais gyfweliad ar gyfer swydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru. Rwy'n cofio'n dda wynebau croesawgar a charedig y panel cyf-weld wrth imi geisio ymateb i'r cwestiynau heriol. Er nad wyf yn cofio pob dim a ofynnwyd imi y diwrnod hwnnw, mae un cwestiwn yn aros yn y cof, sef 'Ble fydd yr Undeb ymhen deng mlynedd?' Sut wnes i ymateb? Wel, a bod yn onest, stryffaglais drwy ryw fath o ateb cwbl annigonol!

Ond, a hithau bellach yn 2026, mae modd ateb y cwestiwn erbyn hyn. Er bod nifer ein heglwysi a'r aelodaeth yn llai, mae yna egni newydd ar waith a mynegiannau gwahanol o genhadaeth wedi cael eu sefydlu. Mae'r tîm yn y swyddfa wedi cynyddu a mwy o gymorth felly ar gael i'n heglwysi. Mawr obeithiaf y bydd creu'r Sefydliadau Elusennol Rhanbarthol yn fodd o sbarduno gwaith cenhadol yn ein Cymanfaoedd. Diolch am waith newydd Esgyn gyda phlant a phobl ifainc ac am y gwaith sy'n parhau yng Nghartref Glyn Nest gyda'r henoed.

Er mai prin yw'r ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, mae Duw wedi parhau i alw gweinidogion a gweithwyr dros y blynyddoedd i wasanaethu ym mhob un o'r Cymanfaoedd. Mae'r berthynas rhwng yr Adran Gymraeg a'r Adran ddi-Gymraeg wedi cryfhau a'r cydweithio'n hwylus, fel a welwn yng nghyfarfodydd y Cyngor Unedig. Profwyd hwylustod arbennig o gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom, megis Oedfa Ilston a'r cyfarfodydd misol gyda'r gweinidogion. Felly, wrth imi ffarwelio â gwaith y swyddfa, y Cymanafoedd a'r eglwysi, hoffwn ddiolch am y cyfle, y cydweithio hapus, ac am bob cefnogaeth a dderbyniais. Dymunaf fendith gyfoethog Duw ar fy olynydd ardderchog, y Parchg Simeon Baker, a gwn y byddwch yn dangos yr un gefnogaeth gadarn iddo yntau wrth iddo arwain yr Undeb drwy'r bennod nesaf yn ei hanes.

## Oedfa Gomisiynu'r Parch. Simeon Baker, Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru

Cynhelir y gwasanaeth am 7 o'r gloch nos Lun, 6 Gorffennaf, yn eglwys Bethesda Baptist Church, 108 Cefn Rd, Rogerstone, Casnewydd, NP10 9EX (https://maps.app.goo.gl/PS6Etxa75QfURaTn8)

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i ymuno â gwasanaeth comisiynu'r Parch. Simeon Baker yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Bydd y gwasanaeth yn gyfle i weddïo dros yr Undeb a dros Simeon wrth i ni nodi'r bennod newydd hon yn ein bywyd gyda'n gilydd. Mae Simeon wedi bod yn aelod o Eglwys Bethesda ers 2012 ac rydym yn ddiolchgar i'r eglwys am gynnal y gwasanaeth comisiynu. Bydd y gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg a darperir cyfieithiad.

**Ar-lein:** Os na allwch fynychu'n bersonol ond yr hoffech fod yn rhan o'r oedfa, bydd cyfle i ymuno â'r gwasanaeth ar-lein. Bydd dolen Zoom yn cael ei darparu yn nes at yr amser. Cysylltwch â swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru os hoffech dderbyn dolen i'r cyfarfod.

## HYFFORDDIANT EBC

### CWRS I FLAENORIAID AC AELODAU – YN SAESNEG

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer blaenoriaid newydd, blaenoriaid profiadol sydd am gael cyfarwyddyd ychwanegol, ac ar gyfer aelodau sy'n dymuno cael gwybod sut allent gyfrannu ymhellach at waith eu capeli/eglwysi.

Cwrs diwrnod, yn cynnwys 3 sesiwn

Dyddiad ac Amser: 1 Gorffennaf 2026, 10.30–15.30

Lleoliad: Capel y Gilgant, y Drenewydd, Powys SY16 2DZ

**Arweinwyr:**

Sesiwn **1**: 'The Elder and Reading the Bible' – Parchg W. Bryn Williams (Cyfarwyddwr Academaidd EBC)

Sesiwn **2**: 'PCW Training Resources' – Mr Rhys Bebb Jones (Cydlynydd Hyfforddiant EBC)

Sesiwn **3**: 'The Elder and Prayer': Mrs Nia Williams (Arweinydd Tîm Gwasanaeth Plant, Ieuenctid a Theulu EBC)

Am ddim – cefnogir gan Adran Gweinidogaethau EBC

Am ragor o fanylion ac i gofrestru, e-bostiwch y Cydlynydd Hyfforddiant: rhys.jones@ebcpcw.cymru

## Rhif ffôn newydd

Daeth neges i law gan y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn, yn ein hysbysu bod ei rif ffôn wedi newid. Y rhif newydd yw:
**07966 538774**

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.